

‘Brexit a’n Tir’ a’r Gymraeg

Papur safbwynt gan Gareth Ioan

1.0 Cyflwyniad

Ar 10 Gorffennaf 2018 lansiodd Leslie Griffiths AC bapur ymgynghorol ar ddyfodol y cymorthdaliadau a gynigir i'r sector amaeth a choedwigaeth yng Nghymru – neu'r 'sector rheoli tir' i ddefnyddio terminoleg y ddogfen. *'Brexit a'n Tir: diogelu dyfodol ffermio yng Nghymru'* yw teitl y ddogfen ymgynghorol.¹ Mae'r ddogfen yn amlinellu cynlluniau rhagweithiol Llywodraeth Cymru i ailstrwythuro cymorthdaliadau amaethyddol yng Nghymru pan dderfydd y cymorthdaliadau cyfredol a dderbynnir o gronfeydd yr Undeb Ewropeaidd. Y newid sylfaenol ac arwyddocaol i'r drefn yw y bydd taliadau sylfaenol uniongyrchol i ffermwyr yn dod i ben.

Ar hyn o bryd rhennir rhyw £255M o daliadau uniongyrchol i 15,520 o fusnesau amaethyddol ar sail maint eu daliadau. Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell dwyn y drefn hon i ben yn 2019 gan gyflwyno dau gynllun grant newydd yn ei le – Cynllun Cadernid Economaidd a Chynllun Nwyddau Cyhoeddus. Bydd y cynlluniau hyn ar agor i 'reolwyr tir' yn gyffredinol – nid busnesau amaethyddol yn unig.

Yn gryno, ymddengys mai prif nodau'r Llywodraeth yn y cyswllt hwn yw proffesiynoli'r diwydiant amaeth a chynyddu ei effeithiolrwydd masnachol; ynghyd â dargyfeirio cyfran uwch o'r gyllideb a fydd ar gael i ffermwyr yn y dyfodol at gynlluniau amgylcheddol a chadwraethol, a hynny ar draul taliadau uniongyrchol i fusnesau amaethyddol.

Mae'r newidiadau arfaethedig wedi cael eu disgrifio fel y newid mwyaf sy'n wynebu'r sector amaethyddol ers cenhedlaeth. O ystyried arwyddocâd teuluoedd amaethyddol i hyfywedd y Gymraeg yn ei chadarnleoedd traddodiadol mae angen i bawb sydd â diddordeb mewn hyrwyddo ymagwedd gyfannol at bolisi a chynllunio iaith dalu sylw i'r ymgynghoriad a chyfrannu at y drafodaeth.

Diben y papur hwn yw cyflwyno crynodeb a dadansoddiad byr o'r argymhellion a geir yn y ddogfen, gan geisio cynnig rhai sylwadau yng nghyswllt dyfodol y Gymraeg yn sgil y newidiadau arfaethedig. Mae'r papur hefyd yn galw ar weithredwyr polisi a chynllunio iaith yng Nghymru, ynghyd â'r mudiad iaith yn gyffredinol, i gyfrannu'n rhagweithiol i'r drafodaeth a'r ymgynghoriad er mwyn sicrhau ymagwedd gyfannol at gynllunio amaethyddol ac ieithyddol. Mae'r papur hwn hefyd yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal asesiad effaith ieithyddol lawn o oblygiadau'r argymhellion arfaethedig. Ceir hefyd rhai awgrymiadau ymarferol ar sut y gellid defnyddio'r cynlluniau newydd i gryfhau sefyllfa'r Gymraeg o fewn ein cymdogaethau gwledig.

¹ <https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-07/brexit-a-tir-ymgynghoriad-dogfen-ymgynghori.pdf>

2.0 Cefndir

Wrth gau'r ddogfen ymgynghorol 'Brexit a'n Tir' mae Llywodraeth Cymru yn datgan mai:

"Brexit yw'r sbardun i ddiwygio trefniadau rheoli tir yng Nghymru". (10.1)

Fodd bynnag, gall unrhyw un sydd wedi dilyn cwrs polisi amaethyddol gweinidogion Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod diwethaf weld pa mor wag yw'r datganiad hynny mewn gwirionedd. Mae gan Lywodraeth Cymru record eglur o symud gwariant cyhoeddus o'r glorian cynhyrchu bwyd a chefnogi ffermydd teuluol yn uniongyrchol i'r glorian sy'n cynnal prosiectau amgylcheddol a chadwraethol. Ymddengys mai ymgais arall yw'r ddogfen hon i ddwysau'r tueddiadau hynny. Cyfle yw Brexit i ddwysau cyfeiriad polisi sydd eisoes wedi osod.

Tra bod Llywodraeth yr Alban yn pwylo a dal eu tir nes gweld pa oblygiadau real a ddaw i'w diwydiant amaethyddol yn sgil Brexit, a hynny er mwyn amddiffyn buddiannau ffermwyr yr Alban yn y modd mwyaf effeithiol posibl, mae Llywodraeth Cymru wedi neidio'n awchus ar y cyfle i wthio ymhellach yr agenda a osodwyd gan y cyn-weinidog materion gwledig, Alun Davies AC, yn 2014 pan ddewisodd ddargyfeirio'r ganran uchaf posibl o arian o gyllideb y taliadau uniongyrchol i ffermwyr i'r gyllideb cynlluniau amgylcheddol a chynlluniau datblygu gwledig eraill. (Hynny yw, yn ôl y derminoleg, dewisodd Alun Davies symud 15% o'r cyllid o Biler 1 i Biler 2).

Mae'r gostyngiad yna yn y gyllideb taliadau uniongyrchol eisoes yn golygu bod ffermwyr Cymru mewn sefyllfa llawer llai cystadleuol na ffermwyr gwledydd eraill Prydain dan y Polisi Amaeth Cyffredin – heb sôn am ffermwyr yng ngwledydd eraill yr Undeb Ewrop. Bydd rheini, wrth gwrs, yn parhau i dderbyn taliadau uniongyrchol dan y Polisi Amaeth Cyffredin am flynyddoedd i ddod. Yng Nghymru, mae cynlluniau arfaethedig Llywodraeth Cymru yn debygol o ddwysau sefyllfa anghystadleuol ffermydd Cymreig.

2.1 Gweledigaeth y Llywodraeth

Dyfynnaf isod weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer tir a rheolwyr tir Cymru yn ei gyfanrwydd:

2.15 Mae'r cyfraniad eang ac amlweddol a nodir uchod yn cyfleu'r achos yn yr oes fodern dros gefnogi rheolwyr tir. Mae hefyd yn allweddol i gyflawni fframwaith deddfwriaethol unigryw Cymru yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

2.16 Ein gweledigaeth ar gyfer tir Cymru yw bod rheolwyr tir yn darparu canlyniadau sydd o bwys enfawr i Gymru gyfan. Dim ond gan reolwyr tir yng Nghymru ar dir yng Nghymru y gall llawer o'r rhain gael eu cyflawni.

2.17 Er mwyn gwireddu'r manteision hyn mae angen inni roi cymorth priodol. Felly bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cyngor a chymorth ariannol sy'n galluogi rheolwyr tir i benderfynu sut orau i reoli eu tir a darparu'r canlyniadau y mae cymdeithas yn eu ceisio.

2.18 Rhaid i'r cymorth hwn gydnabod hefyd bod y mwyafrif llethol o'r tir yn cael ei reoli fel busnesau ffermio neu goedwigaeth, yn arbennig mai ffermydd sy'n cynhyrchu bwyd yw craidd tir Cymru. Rhaid i'r busnesau hyn fod yn economaidd gadarn er mwyn inni allu darparu'r ystod ehangach o ganlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol. Felly mae dull cyfannol yn hollbwysig, fel a adlewyrchir yn Neddf yr Amgylchedd – dod o hyd i ffyrdd o wella ein hadnoddau naturiol gan greu bywoliaeth o'u cwmpas ar yr un pryd. Dyma'r sail a ddefnyddir gennym i asesu a yw polisiau cyfredol yn addas at eu diben yng nghyddestun Brexit.

Gwelir mai Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yw'r cyd-destun deddfwriaethol a gynigir yma – gwella ein hadnoddau naturiol a chreu bywoliaeth, dyna'r drefn blaenoriaeth. Awgrymir ymhellach mai rhan yn unig fydd cynhyrchu bwyd wrth greu'r bywoliaeth hwnnw i'r dyfodol.

Mae llawer i'w ddehongli o ieithwedd a chywair y ddogfen ymgynghorol hon. Yn wir, ceir awgrymiadau cryf o'r modd mae'r Llywodraeth bresennol a'i chynghreiriaid yn canfod y sector amaethyddol yn y dyfyniad uchod. Cyfeirir at ffermwyr a choedwigwyr fel 'rheolwyr tir' a 'rheoli tir' yw eu pennaf weithgaredd, yn ôl y ddogfen. Sicrhau cymorthdaliadau i gefnogi cynhyrchu bwyd yw priod amcan y Polisi Amaeth Cyffredin. Ond serch y cyfaddefiad uchod (2.18), ymddengys, o ystyried y ddogfen yn ei chyfanrwydd, mai allbwn eilaidd yw'r gweithgaredd o gynhyrchu bwyd i Lywodraeth Cymru. Ym mharagraff 2.2 disgrifir 'adnoddau naturiol' Cymru yn nhermau 'tirwedd a chynefinoedd'; ac mae 'twristiaeth' a'r diwydiant 'bwyd a diod' yn cael y lle blaenaf ar y 'cynnyrch da byw gorau yn y byd'.

Noder bod y term 'rheolwyr tir' hefyd yn agor y drws i gyrff eraill heblaw amaethwyr a choedwigwyr i geisio am y cymorth cyhoeddus newydd hwn – ymddiriedolaethau natur, ymddiriedolaethau cadwraethol, cronfeydd pensiwn a buddsoddwyr eraill mewn asedau daearyddol. Mae'r ehangu yma ar y ddiffiniad o 'reolwyr tir' a chynyddu'r gystadleuaeth am gymorth o'r pwrs cyhoeddus yn achosi pryder amlwg i'r undebau amaethyddol. Dwyseir consyrn yr undebau ffermwyr wrth i'r ehangu hwn ar y diffiniad o reolwyr tir gael ei fynegi ar ffurf un o'r pum egwyddor sylfaenol sy'n sail i'r fframwaith arfaethedig:

“4.8 Yr egwyddor olaf yw y dylai'r holl reolwyr tir allu manteisio ar gynlluniau newydd; ni fyddwn yn cyfyngu ein cymorth i'r rheini sy'n derbyn cyllid presennol y PAC. Ond efallai y bydd angen i reolwyr tir wneud pethau'n wahanol yn gyfnewid am gymorth. Dyma'r unig ffordd y gallwn sicrhau bod ein tir yn dwyn manteision gwell i holl bobl Cymru. Dyma hefyd y ffordd orau o gyfiawnhau gwariant cyhoeddus yn y rhan hanfodol hon o fywyd yng Nghymru.”

Mae ieithwedd y ddogfen yn amlygu ymagwedd sy'n gweld daear Cymru fel ased gyffredin sydd i'w defnyddio er budd holl drigolion Cymru. Teg hynny, ar lefel symbolaidd, mae'n siŵr. Ond ceir yr argraff nad yw'r Llywodraeth yn llawn sylweddoli'r cyfrifoldebau a'r dyletswyddau – masnachol, cyfreithiol, cymdeithasol a moesol – sy'n pwysu ar berchnogion cyfreithiol yr asedau hynny.

At hynny, synhwyrir bod yna amharodrwydd i gefnogi busnesau amaethyddol, busnesau a ganfyddir eu bod eisoes yn perchen ar asedau gwerthfawr. Anogir busnesau amaethyddol i ddatblygu 'effeithiolrwydd' a 'hydrinedd' masnachol tra, ar yr un pryd, cwtogir y taliadau uniongyrchol a roddir i'r busnesau hynny, gan danseilio eu gallu i gystadlu ar y farchnad agored.

Yn anffodus, yn fy marn i, mae'r ddogfen yn cyfleu rhyw ddiffyg dealltwriaeth, diffyg cydymdeimlad a diffyg amynedd â sefyllfa trwch ffermydd teuluol traddodiadol Cymru.

2.2 Y cynlluniau grant newydd

Gyda dileu'r drefn gyfredol o daliadau sylfaenol uniongyrchol i ffermwyr, ymddengys mai dau drywydd posibl sydd i 'reolwyr tir' i'r dyfodol – o ran cymorthdaliadau cyhoeddus, beth bynnag.

Yn gyntaf, hyrwyddo 'effeithiolrwydd' a 'hydrinedd' masnachol busnesau fferm – sy'n golygu yn y pen draw uno ffermydd yn unedau cynhyrchu cynyddol mwy o faint a mwy 'masnachol' eu meddylfryd a'u gweithrediad. Ac yn ail, sicrhau bod 'reolwyr tir' yn 'rheoli' eu tiroedd er mwyn sicrhau buddion cyhoeddus – 'nwyddau cyhoeddus' yn ôl y derminoleg. Cynigir dau gynllun

cyfochrog i hyrwyddo'r nodau hyn – Cynllun Cadernid Economaidd a Chynllun Nwyddau Cyhoeddus. Down yn ôl at y cysyniad o 'nwyddau cyhoeddus' yn y man.

Serch rhai datganiadau sy'n cydnabod rôl allweddol ffermwyr a'u teuluoedd i fywyd a hyfywedd cymdogaethau cefn gwlad, mae'r ymagwedd waelodol a geir yn y ddogfen yn amlwg. Yn anffodus, nid yw Llywodraeth Cymru yn llwyddo i argyhoeddi'r darllenwr eu bod â gwir awydd i gynnal ffermydd teuluol bychain, busnesau a ganfyddir eu bod yn 'aneffeithiol' ac 'anhadrin' yn economaidd. Eto, dyma'r union deuluoedd amaethyddol sy'n asgwrn cefn i fywyd cymdeithasol ac economi cefn gwlad.

Mae eraill yn fwy cymwys na mi i ymhelaethu ar gryfderau a gwendidau gweinyddol y ddau gynllun a amlinellir yn y ddogfen ymgynghorol, ynghyd â'u heffaith strwythurol tebygol ar y sector amaethyddol ac economi cefn gwlad. Yn wir, mae'r undebau amaethyddol eisoes yn tynnu sylw at oblygiadau posibl fydd yn dwyn canlyniadau difrifol iawn i'r economi wledig a ffabrig cymdeithasol ein bröydd gwledig. Fy niben pennaf i yma yw tynnu sylw, os yw'r darogan hynny yn gywir, at yr effaith drychinebus y gall y trywydd mae Llywodraeth Cymru yn ei ddilyn yma dan Leslie Griffiths ei gael ar y Gymraeg yn ei chadarnleoedd. Dyma'r union un lywodraeth, wrth gwrs, sydd wedi gosod nod i sicrhau miliwm o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

3.0 Y Gymraeg a'r sector amaeth

Mae'r sector amaeth yn gwbl greiddiol i hyfywedd y Gymraeg fel iaith gymunedol. Y sector amaeth, ynni a dwr yw'r sector cyflogaeth sydd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg – traean o'r sector yn ôl y ddogfen ymgynghorol:

“2.13 Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o ffabrig cymdeithasol rhannau o Gymru wledig. Mae cysylltiadau diwylliannol â ffermio ledled Cymru'n gryf ac mae gan amaethyddiaeth rôl bwysig o ran cynnal y Gymraeg. Yn wir, mae bron i draean yr unigolion mewn sectorau rheoli tir yn siarad yr iaith yn rheolaidd (cyfran uwch nag unrhyw gategori cyflogaeth arall)”.

O gymryd y sector amaeth ar ei ben ei hun mae'n debygol y gall fod y ganran yn nes at yr hanner. Mewn cymhariaeth, tua chwarter y gweithwyr yn y sector addysg sy'n siarad Cymraeg.²

Mae gan y diwydiant le allweddol a chanolog yng ngwead cymunedau gwledig y tu hwnt i ffiniau'r diwydiant ei hun, wrth gwrs. Yn economaidd mae'r diwydiant yn beiriant canolog i'r holl economi wledig. Mae busnesau di-ri yn ddibynnol ar y sector amaeth am eu bywoliaeth. Yn gymdeithasol mae'r economi amaethyddol yn sail hollbwysig i gymdogaethau a rhwydweithiau gwledig ac i'r diwylliant Cymraeg yn enwedig. Nid oes modd gorbwysleisio ei arwyddocâd ieithyddol a diwylliannol. Mewn ardaloedd ieithyddol arwyddocaol megis gogledd Penfro, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Drefaldwyn, Gwynedd a Chonwy ceir ardaloedd helaeth sydd â rhwng 10% a 27% o'u poblogaeth yn uniongyrchol gyflogedig yn y sector amaeth. Ardaloedd yw'r rhain lle gwelir canrannau uchel o siaradwyr Cymraeg yn ogystal.

O ystyried cysylltiadau teuluol gweithiwr amaethyddol, a bod y diwydiant amaethyddol yn beiriant economaidd cynhaliol trwy drwy cadarnleoedd y Gymraeg, gall y sector amaethyddol fod o gynhaliath ariannol arwyddocaol i o leiaf un o bob deg siaradwr Cymraeg.

² Tabl DC2611WA, Cyfrifiad 2011.

Er tegwch i'r awduron, fel y gwelwyd uchod, mae'r ddogfen yn cydnabod bodolaeth ac arwyddocâd y Gymraeg, a hynny i raddau amlycach na welir yn gyffredin mewn dogfennau strategol ymgynghorol cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru, e.e.:

"2.12 Mae gweithgareddau ffermydd a choedwigoedd yn cynnal gymunedau gwledig, yn economaidd ac yn gymdeithasol. Mae hyn o bwys mawr o ystyried y nifer fawr o ardaloedd gwledig yng Nghymru. O ran yr economi, maent yn tynnu ar gasgliad eang o fusnesau lleol, y maent i gyd yn eu tro'n cynnal cymunedau gwledig. I gymdeithas, mae'r sefydlogrwydd a ddarperir gan y ffaith bod amaethyddiaeth yng Nghymru'n pontio sawl cenedlaeth wedi helpu i gynnal y Gymraeg a diwylliant Cymru mewn ardaloedd gwledig. Mae ffermydd a ffermwyr yn aml yn cael eu disgrifio fel angorau cymdeithasol eu cymunedau lleol".

At hynny, mae'r dadansoddiad a gynigir yn erbyn nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (tud. 25) yn nodi'r angen i sylweddoli bod "...canran uwch na'r cyfartaledd o siaradwyr Cymraeg ym myd amaeth". A bod rhaid gwarchod hyn.

Eto, cydnabyddir gwerth y gymdeithas amaethyddol i wead cymdeithasol cefn gwlad:

"6.3 Rydym yn cydnabod ac yn dathlu'r ffaith bod rheolwyr tir Cymru'n rhan o ddiwylliant sydd â gwerth sy'n ychwanegol at ei allbynnau economaidd. Bydd eu cadw ar y tir yn hollbwysig i gynnal a gwella'r cyfalaf amgylcheddol a chymdeithasol yn ein hardaloedd gwledig".

Ond mae'r ddogfen hefyd yn amlygu pa mor fregus yw sefyllfa amaeth yng Nghymru. Mae Ffigur 2 ar dudalen 15 yn dangos pa mor simsan yw'r sefyllfa. Ystyrir bod 87% o ffermydd Cymru yn fusnesau bach neu fusnesau bach iawn (28% yn fusnesau bach a 59% yn fusnesau bach iawn). Ar dudalen 16 mae Ffigur 3 a Ffigur 4 yn dangos dadansoddiad o incwm cyfartalog ffermydd yn ôl maint, gan ddangos yn eglur pa mor ddibynnol yw'r ffermydd hyn ar daliadau uniongyrchol mewn cymhariaeth ag incwm o amaethu, cynlluniau amaeth-amgylcheddol a gweithgareddau arallgyfeirio. Mae Undeb Amaethwyr Cymru yn honni bod 80% o incwm amaethyddol Cymru yn ddibynnol ar daliadau uniongyrchol dan y Polisi Amaeth Cyffredin.

Waeth beth fo'r canfyddiadau cyffredin am gyfoeth ffermwyr, y gwir yw mai diwydiant cymharol llwm yw'r diwydiant amaeth yng Nghymru ar y cyfan. Ar gyfartaledd, gwneud colled mae trwch ffermydd da byw Cymru. Mae'n ddiwydiant sydd hefyd yn llwm yng nghyd-destun y DG. Mae Ffigur 7 ar dudalen 28 y ddogfen ymgynghorol yn adrodd ar gyfanswm yr incwm amaethyddol fesul gwlad yn y DG fesul hectar:

Lloegr	£331/ha
Gogledd Iwerddon	£246/ha
Yr Alban	£116/ha
Cymru	£102/ha

Beth bynnag a ddaw, felly, mae'n amlwg bod y diwydiant amaeth yng Nghymru mewn argyfwng cronig. Y pryder yw fod cynlluniau presennol a rhagweithiol Llywodraeth Cymru yn debygol o ddwysau'r argyfwng hwnnw.

Mae'n siŵr y byddai rhai'n dadlau bod angen 'moderneiddio' ein busnesau amaethyddol, chwynnu'r aneffeithiol a gwella cynaladwyedd masnachol yr unedau cryfaf. Digon teg. Ond ar ba raddfa? Dros ba gyfnod? Ac ar ba gost cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol?

3.1 Y Gymraeg fel nwydd cyhoeddus?

Y syniad newydd canolog a gyflwyir yn y ddogfen – ac efallai ei holl diben, hyd yn oed – yw'r syniad o 'nwydd cyhoeddus'.

Dyma'r agwedd – y Cynllun Nwyddau Cyhoeddus – mae'n ymddangos bod y Llywodraeth, ei hasiantaethau (megis Cyfoeth Naturiol Cymru) a'u partneriaid yn y sector amgylcheddol a chadwraethol y mwyaf cyfforddus â hi a dyma'r agwedd yr ymddengys eu bod nhw'n fwyaf cynhyrfus yn ei chylch.

“Mae gan dir Cymru'r potensial i ddwyn manteision sylweddol i holl bobl Cymru. Rydym am sefydlu cynllun Nwyddau Cyhoeddus newydd a hyblyg. Trwy'r cynllun newydd, bydd rheolwyr tir yn gallu cael eu talu am gynhyrchu canlyniadau nad oes marchnad ar eu cyfer ar hyn o bryd.”

Beth yw'r nwyddau cyhoeddus hyn? Yn syml:

“Mae'r nwyddau cyhoeddus y byddwn yn ystyried eu cefnogi'n cynnwys:

- *Datgarboneiddio ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd...*
- *Cynefinoedd ac ecosystemau cadarn...*
- *Lleihau perygl llifogydd...*
- *Ansawdd aer...*
- *Ansawdd dŵr...*
- *Diogelu pridd...*
- *Treftadaeth a hamdden...”*

Serch hynny, nid yw'r ddogfen ymgynghorol yn cyflwyno diffiniad cadarn o'r hyn a ystyrir yn 'nwydd cyhoeddus'. Yn eu cyflwyniad diweddar mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn mae Undeb Amaethwyr Cymru (UAC) yn diffinio 'nwydd cyhoeddus' fel nodwedd a ystyrir (a) yn gadarnhaol o ran y lles cyhoeddus, (b) sydd ar gael i bawb 'am ddim', a (c) nad sy'n lleihau o gael ei ddefnyddio gan unigolion.

Mae UAC yn defnyddio awyr iach yn enghraifft o hyn. Nid yw defnydd un person o awyr iach yn lleihau gallu unigolyn arall i'w ddefnyddio. Ar y llaw arall, meddir, nid yw Llywodraeth Cymru yn ystyried cynhyrchu bwyd yn nwydd cyhoeddus gan fod terfyn ar fwyd o gael ei fwyta.

Ond mae UAC, fel Llywodraeth yr Alban, medden nhw, yn dadlau y dylai diffiniad Llywodraeth Cymru ystyried buddiannau ehangach y diwydiant amaethyddol fel nwyddau cyhoeddus, e.e. y budd a ddaw o gynhyrchu bwyd yn y lle cyntaf, sefydlogrwydd y cyflenwad bwyd, ei ansawdd a pha mor fforddiadwy yw'r cyflenwad hwnnw.

Nodweddion ffisegol a restrir gan Lywodraeth Cymru fel nwyddau cyhoeddus yn y ddogfen hon yn bennaf. Er hynny, maen nhw hefyd yn cynnwys 'treftadaeth a hamdden' yn y rhestr – gweithgareddau sydd ychydig yn fwy haniaethol a chymdeithasol eu natur.

*“**Treftadaeth a hamdden.** Mae gan reolwyr tir rôl allweddol o ran cynnal a gwarchod ein treftadaeth ddiwylliannol yn ogystal â darparu a gwella cyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored. Mae twristiaeth, ar y cyd ag adeiladu neu gynnal a chadw treftadaeth yn creu dwywaith cymaint o GVA â'r sector amaethyddiaeth yng Nghymru. Mae cerdded a mathau eraill o weithgareddau corfforol yn creu cyflogaeth ac mae ganddynt y potensial i leihau costau iechyd yn y tymor hir”.*

Felly, i ddod at fater y Gymraeg, os yw sicrhau buddiannau personol a buddiannau iechyd i ymwelwyr a cherddwyr yn 'nwydd cyhoeddus', pam felly na ellir ystyried cyfraniad y sector amaethyddol i gynhaliath y Gymraeg yn 'nwydd cyhoeddus' yn yr un modd?

Mae'r ddogfen eisoes yn cydnabod rhan allweddol y sector yng nghynhaliath y Gymraeg. O ystyried nod strategol Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr erbyn 2050 a hyrwyddo hyfywedd y Gymraeg yn gyffredinol, pam na ellid, felly, rhoi gwerth ar allu'r gweithlu amaethyddol i ddiogelu a hyrwyddo'r Gymraeg ymhellach?

Yn ymarferol gellid ystyried mesurau megis:

- cynnig premiwm i bob busnes amaethyddol mewn ardaloedd ieithyddol arwyddocaol yn ddiwahân (h.y. heb ystyriaeth ieithyddol);
- talu am gysiau dysgu Cymraeg i deuluoedd amaethyddol dan gynllun Cymraeg Gwaith;
- pwysoli yn gadarnhaol sgiliau iaith Gymraeg ceiswyr grantiau;
- pwysoli yn gadarnhaol plant i deuluoedd amaethyddol sy'n mynychu ysgolion lleol ac ysgolion cyfrwng Cymraeg yn benodol;
- pwysoli yn gadarnhaol plant hŷn i deuluoedd amaethyddol sy'n dilyn cyrsiau addysg bellach a chysiau addysg uwch cyfrwng Cymraeg; a
- thalu premiwm i fusnesau amaethyddol sy'n delio ag asiantaethau Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae nifer o unigolion blaenllaw o fewn y maes polisi a chynllunio iaith yng Nghymru, fel Emyr Lewis, eisoes wedi rhybuddio bod Brexit yn debygol o ddeillio ar heriau dirfodol i'r gymuned iaith Gymraeg. Yn yr achos hwn ymddengys bod Llywodraeth Cymru yn cynllunio i gyflymu dyfodiad yr heriau hynny drwy weithredu rhag-blaen yn unol â'r blaenoriaethau polisi y maen nhw eisoes wedi gosod i'w hunain – polisïau sy'n rhoi buddion amgylcheddol o flaen parhad y fferm deuluol draddodiadol Gymreig.

Mae eraill, fel Meirion Prys Jones yn ddiweddar, wedi amlygu rôl canolog cymdogaethau a rhwydweithiau lleol i hyfywedd tymor hir y Gymraeg ac wedi galw am fuddsoddi pellach i'r cyfeiriad hwnnw. Mae'n ymddangos i mi fod y bwriadau a amlinellir yn y ddogfen '*Brexit a'n Tir: diogelu ffermio yng Nghymru*' yn debygol o danseilio'r bwriadau y mae'r un Llywodraeth wedi ei osod yng nghyswllt y strategaeth Cymraeg 2050.

Ond ym mhob argyfwng ceir cyfle. Dyma gyfle euraid i weithredwyr yn y maes polisi a chynllunio iaith – a mudiadau iaith yn gyffredinol – i fynnu ymagwedd gyfannol at gynllunio ieithyddol yng nghefn gwlad, cynllunio sy'n dod ag amcanion economaidd a ieithyddol ynghyd.

Awgrymaf, felly, bod angen, fel man cychwyn, i'r maes polisi a chynllunio iaith:

- fynnu bod y Llywodraeth yn cynnal asesiad effaith ieithyddol ar y cynlluniau arfaethedig; ac yn ail,
- sicrhau bod buddiannau'r Gymraeg yn cael eu hystyried yn llawn wrth i'r Llywodraeth bennu'r nwyddau cyhoeddus y mae'n disgwyl i'r sector 'defnydd tir' eu cynhyrchu i'r dyfodol.

4.0 Beth nesaf?

Mae'r ymgynghoriad ar *'Brexit a'n Tir: diogelu dyfodol ffermio yng Nghymru'* yn cau ar 30ain o Hydref.

Cyn hynny, rwy'n awgrymu y dylai cynifer â phosibl o weithredwyr polisi a chynllunio iaith ymateb i'r ymgynghoriad. Mi fydd cyrff cynrychioladol y sector amaethyddol yn sicr o wneud hynny; fel y bydd cyrff amgylcheddol a chadwraethol sydd â budd amlwg a llawer i'w ennill o'r cynlluniau arfaethedig. Mae angen i gynllunwyr iaith hefyd godi eu llais a sicrhau mewnbwn i'r drafodaeth.

Mae modd anfon sylwadau cyffredinol a/neu ymateb yn uniongyrchol i'r cwestiynau ymgynghorol canlynol:

10. A oes unrhyw nwyddau cyhoeddus eraill y dylid eu cefnogi yn eich tyb chi? Os felly, pam?

19. Safonau'r Gymraeg A fydd y rhaglen rheoli tir arfaethedig yn cael unrhyw effeithiau (boed gadarnhaol neu anffafriol) ar:

- gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg;*
- peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?*

20. Hoffech chi wneud unrhyw sylwadau pellach am y rhaglen rheoli tir a gynigir?

Medrir cyrchu'r ddogfen ymgynghorol a'r cyfryngau ymateb yma:

<https://beta.llyw.cymru/cymorth-i-ffermwyr-cymru-ar-ol-brexit>

At hynny, byddai'n dda gweld trafodaeth gyhoeddus ar y cyswllt rhwng iaith ac amaeth a syniadau newydd a chyffrous yn cael eu creu a'u gwyntyllu er mwyn cefnogi a chynnal y naill fel y llall.

**Gareth Ioan
Medi 2018**

Mae Gareth Ioan yn ymgynghorydd blaenllaw yn y maes polisi a chynllunio iaith ac yn Gadeirydd ar IAITH: y ganolfan cynllunio iaith. Mae hefyd yn ffermio ar fferm deuluol yng Ngheredigion. Ei safbwynt personol ef a geir yn yr erthygl uchod. Fe'i cynigir fel papur safbwynt er mwyn ysgogi trafodaeth ar y pwnc hollbwysig hwn.